Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Beth yw Adroddiad Cynnydd Blynyddol y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol?

Trafnidiaeth Canolbarth Cymru (TraCC) yw Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol y Canolbarth. Mae'n bartneriaeth rhwng awdurdodau lleol Ceredigion, Gwynedd a Phowys. Cyhoeddodd TraCC ei Gynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2009. Mae'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol hwn yn trafod blwyddyn ariannol 2011/12. Hwn yw'r ail adroddiad o'r fath a gyhoeddwyd gan TraCC ers i'r Gweinidog gymeradwyo Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC (2010-2015) ym mis Rhagfyr 2009.

Diben yr adroddiad hwn yw darparu tystiolaeth am effeithiolrwydd a buddion y rhaglenni trafnidiaeth rhanbarthol i'r cyhoedd, i ddefnyddwyr gwasanaethau ac i randdeiliaid eraill. Paratowyd yr adroddiad yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n nodi cynnwys a strwythur gofynnol yr adroddiad.

Mae'r Adroddiad Cynnydd Blynyddol yn rhoi manylion am y gwaith i ddarparu trafnidiaeth ranbarthol. Mae'n dangos effeithiolrwydd a manteision rhaglen gyflawni cynllun trafnidiaeth rhanbarthol TraCC, ynghyd â'r ffordd y mae'r rhaglenni cyflawni'n gwireddu'r weledigaeth a nodir yng Nghynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC.

Rhaglen Gylfawni Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC 2011/12

Mae TraCC yn derbyn arian grant gan Lywodraeth Cymru i roi cynlluniau trafnidiaeth ar waith ar draws rhanbarth y Canolbarth. Mae TraCC yn rheoli ac yn derbyn y ffynonellau arian a ganlyn gan Lywodraeth Cymru:

- **Grant Cyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol** – i gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol.
- **Grant Cyfalaf a Refeniw Diogelwch Ffyrdd** – i fynd i'r afael â phryderon am ddiogelwch ar draws y rhanbarth.
- **Grant Refeniw Craidd** – i ariannu ac i gefnogi Tîm Craidd TraCC.
- **Grant Cydgysylltydd Cynllun Teithio Rhanbarthol** – i ariannu swydd Cydgysylltydd y Cynllun Teithio.

Dyma'r arian grant a ddarparwyd i TraCC er mwyn iddo gyflawni rhaglen y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn 2011/12:

- Grant Cyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol – £2,680,000
- Grant Refeniw Craidd – £150,000
- Grant Refeniw Canolfannau Teithio Cynaliadwy – £40,000

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Crynodeb o brif lwyddiannau 2011/12

Yn gryno, yn ystod 2011/12, mae TraCC wedi dangos i Lywodraeth Cymru a'i bartneriaid bod modd iddo gynllunio a rheoli'r gwaith o gyflawni rhaglenni ariannu rhanbarthol, er gwaethaf yr adnoddau rheoli bach sydd ganddo, drwy:

- wario 106% o Grant Cyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, gwario 111% o'r Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd, gwario 97.8% o'r Grantiau Refeniw Diogelwch Ffyrdd, gwario 100% o'r Grant Refeniw Craidd a gwario 100% o'r Grant Refeniw Canolfannau Teithio Cynaliadwy a ddarparwyd ar gyfer Cydgysylltydd y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol;
- gwario 46% o Grant Cyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol erbyn trydydd chwarter y flwyddyn ariannol;
- dangos bod modd iddo wario £150,000 o arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol;
- cyflawni rhaglen aml-fodd, sy'n cydweddu â gweledigaeth TraCC a blaenoriaethau'r rhanbarth.

Bu i TraCC gyflawni hyn drwy:

- Gydweithio – bu TraCC a'r awdurdodau lleol sy'n aelodau ohono'n cydweithio'n effeithiol ers 2003;
- Trefniadau llywodraethu a phenderfynu cadarn ac effeithiol, gyda Chytundeb Cyfreithiol a Chyd-bwyllgor/Bwrdd;
- Ychwanegu gwerth at y trefniadau presennol – cymorth technegol arbenigol gan Dîm Craidd pwrpasol o swyddogion, gan fanteisio ar wybodaeth ac arbenigedd y tri awdurdod, a'u rhannu;
- Rheoli disgwyliadau – taro cydbwysedd rhwng blaenoriaethau trafnidiaeth sy'n cystadlu â'i gilydd a buddsoddi mewn rhaglenni fforddiadwy y mae modd eu cyflawni.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyllid Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol 2011/12

Yn gryno:

- Dyraniad cyfalaf o £2,680,000 gan Lywodraeth Cymru.
- Mae hyn yn gyfwerth â 13.7% o ddyraniad Grant Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol Cymru Gyfan o dan gytundeb 3 blynedd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Consortia Trafnidiaeth Rhanbarthol rhwng 2010/11 a 2012/13.
- Mae dyraniad 2011/12 yn ostyngiad o 11% o'i gymharu â dyraniad 2010/11, sef £3,014,000.
- Sicrhaodd TraCC £150,000 o gyllid cyfalaf ychwanegol (5.6% yn ychwanegol) gan Lywodraeth Cymru tua diwedd y flwyddyn ariannol. Bu i hyn gryfhau'r rhaglen a sicrhau bod modd estyn buddion y rhaglen yn ehangach.
- Llwyddodd TraCC i wario 106% o'i ddyraniad gwreiddiol. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, gwariwyd cyfanswm o £2,852,278.
- Mae Ffigur RTP1 yn dangos y cynlluniau a oedd yn rhan o raglen gyfalaf 2011/12.
- Ceir crynodeb o'r dyraniad a'r gwariant fesul categori modd yn Nhabl RTP1.
- Ymhlith y prif brosiectau a gyflawnwyd yn 2011/12 yr oedd Porth Trafnidiaeth Teithwyr Aberystwyth, Pont Briwet, Cam 2 Bwcabus, yr A486 o'r Post Bach i Synod Inn, Pont Ysgol Dr Williams, Dolgellau, a Chyfnewidfa Aberhonddu.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Ffigur RTP1 – Cynlluniau cyfalaf 2011/12



Schemes	
Intergrated Transport	
1	Aberystwyth Passenger Transport Gateway
2	Aberystwyth Park & Ride North (Frongoch Farm)
3	Cardi Bach Rural Bus (Coast & Countryside)
4	Meirionnydd Bus Infrastructure (Bus Interchanges)
5	Machynlleth Interchange
6	BBNP Sustainable Transport Project Brecon Interchange Signage Project
7	Newtown - Sustainable Travel Centre (raised bollards)
8	Newtown Bus interchange
9	Bwcabus Phase 2 (Traws Cymru Service Link)
10	Rural Interchange/park and Share (Synod Inn)
11	Public Transport Interchanges/ Linkages (Brecon & Dolgellau)
12	Regeneration Related Projects(Newtown)
Rail	
1	Dyfi Junction
2	Rail Study WelTAG (Carno & Bow Street)
3	Trunk Roads Dyfi Bends Project (Dyfi Junction station access)
Road	
1	A486 Post Bach to Synod Inn
2	Pont Briwet
3	Bompren to Nant y Gwenlli A493
4	B4520 Brecon New Traffic Signals and Junction Improvements
Walking & Cycling	
1	NCN Tregaron (Ystwyth Tail)
2	Pont Dysynni
3	Llwybr Tegid, Bala (Phase 1)
4	Snowdonia Centre of Excellence Sustainable Transport Links (Sarn Helen)
5	Lon Treweryn
6	Pont Dr Williams School, Dolgellau (Bridge)
7	Tywyn to Bryncrug Extension (cycle route) Tywyn to Bryncrug (additional funding December 2011)
8	Dee Valley Route Dolgellau to Rhydymain
9	Meirionnydd Cycle Stands
10	Tawe Uchaf Tail, Ystradgynlais
11	Snowdonia Centre of Excellence Sustainable Transport Links (Llechwedd to Blaenau)
Programme Management/Monitoring	
1	TraCC Programme Management and Monitoring
2	Scheme Preliminary Development
3	TraCC APR & Programme
4	Equality Impact Assessment of the RTP Objectives
5	TraCC Regional Walking and Cycling Strategy
6	TraCC regional Transport Plan Support 2011.12 Flooding and Carbon Review
7	Monitoring Surveys
8	TraCC Highway Strategy

Tabl RTP1 – Cynlluniau cyfalaf fesul modd 2011/12

	Dyraniad gwreiddiol	Dyraniad terfynol
Trafnidiaeth Integredig	£660,000	£914,580
Ffyrdd	£1,374,000	£891,846
Rheilffyrdd	£0	£26,693
Cerdded a Beicio	£175,000	£685,973
Rheoli / Monitro Rhaglenni / Gwaith Rhagarweiniol	£471,000	£333,186
Cyfanswm	**£2,680,000**	**£2,852,278**

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Dangosir statws pob cynllun yn rhaglen gyfalaf 2011/12 yn Nhabl RTP2.

Tabl RTP2 – Statws cynllun cyfalaf 2011/12

Cynlluniau	Dyraniad gwreiddiol 2011/12 (£000oedd)	Cyllideb gyfredol 2011/12 (£000oedd)	Gwariant Terfynol RTCG 2011/12 (£000oedd)	Statws RAG
Porth Trafnidiaeth Teithwyr Aberystwyth	400,000	400,000.00	409,944.33	
Cam 2 Bwcabus (Gwasanaeth Cyswllt TrawsCymru)	260,000	245,000.00	246,379.60	
Parcio a Theithio Gogledd Aberystwyth (Fferm Frongoch)	0	20,000.00	11,343.77	
Bws Gwledig y Cardi Bach (yr Arfordir a Chefn Gwlad)	0	15,000.00	15,000.00	
Seilwaith Bws Meirionnydd (Cyfnewidfeydd Bysiau)	0	42,000	41,467	
Prosiect Trafnidiaeth Gynaliadwy PCBB – Prosiect Arwyddion Cyfnewidfa Aberhonddu	0	25,000.00	25,805	
Cyfnewidfa Aberhonddu	0	130,000	130,000	
Y Drenewydd – Canolfan Teithio Cynaliadwy (codi bolardiau)	0	33,000	33,000	
Stondinau beiciau Meirionnydd		3,000	1,641	
A486 Post Bach i Synod Inn	234,000	534,000.00	536,025.31	
Pont Briwet	1,100,000	300,000	310,625	
B4520 Aberhonddu – signalau traffig newydd a gwella'r gyffordd	40,000	40,000.00	45,195	
Astudiaeth Rheilffyrdd WelTAG (Carno a Bow Street)	0	2,671.00	2,670	
Prosiect Cefnffyrdd Troeon Dyfi (mynediad i orsaf Cyffordd Dyfi)	0	24	24,023	
Pont Dysynni	25,000	25,000	29,010	
Llwybr Tegid, y Bala (Cam 1)	150,000	33,000	42,843	
Canolfan Rhagoriaeth Eryri – Cysylltiadau Trafnidiaeth Cynaliadwy (Sarn Helen)	0	20,000	21,954	
Pont Ysgol Dr Williams, Dolgellau	0	450,000	450,000	
Estyniad Tywyn i Fryncrug (llwybr beicio)	0	20,000	20,000	
Tywyn i Fryncrug arian ychwanegol Rhagfyr 2011	0	41,000	34,610	
Llwybr Tawe Uchaf, Ystradgynlais	0	85,000	87,556	
Cyffordd Dyfi	0	2,000.00	1,650.71	
NCN Tregaron (Llwybr Ystwyth)	0	5,000.00	3,311.30	
Pontpren i Nant y Gwenlli A493	0	167,000	162,656	
Lôn Tryweryn	0	10,000	10,000	
Llwybr Dyffryn Dyfrdwy Dolgellau i Rydymain	0	30,000	30,000	

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Cyfnewidfa Machynlleth	0	16,000.00	15,960	
Cyfnewidfa Bysiau'r Drenewydd	0	13,000	12,807	
Rheoli a monitro rhaglen TraCC	80,000	25	21,581	
Datblygu cynlluniau rhagarweiniol	100,000	0	0	
Cyfnewidfa/parcio a rhannu gwledig (Synod Inn)	26,000	0	0	
Cyfnewidfeydd/cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus (Aberhonddu a Dolgellau)	165,000	0	0	
Gwella'r orsaf drenau (Machynlleth)	50,000	0	0	
Prosiectau Adfywio (y Drenewydd)	20,000	0	0	
Adroddiad Blynyddol a Rhaglen TraCC	0	13	12750	
Asesiad o Effaith Amcanion yr RTP ar Gydraddoldeb	0	1	1500	
Strategaeth Ranbarthol Cerdded a Beicio TraCC	0	17	16819	
Cymorth Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC 2011/12 – Adolygiad Llifogydd a Charbon	0	3	3000	
Monitro arolygon	0	11	11,150	
Strategaeth Priffyrdd TraCC	0	30	30,000	
Canolfan Rhagoriaeth Eryri – Cysylltiadau Teithio Cynaliadwy (Llechwedd i Blaenau)	30,000	0	0	

Mae statws RAG yn dangos:

COCH	MELYN	GWYRDD
Nid aeth y prosiect rhagddo fel a nodwyd yn y cynllun cyflawni a symudwyd yr arian i brosiectau eraill.	Cafodd y prosiect ei gyflawni/roi ar waith ond gyda newidiadau neu gynnydd sylweddol o ran costau	Cafodd y prosiect ei gyflawni fel a nodwyd yn y cynllun cyflawni ac yn unol â'r gyllideb neu'n agos ati.

Cyllid Refeniw a Chyfalaf Diogelwch Ffyrdd 2011/12

Yn gryno:

- Derbyniodd TraCC 7% o'r Grant Diogelwch Ffyrdd (refeniw a chyfalaf gyda'i gilydd) sydd ar gael ar draws Cymru.
- Gwariodd TraCC 111% o'r Grant Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd a 97.8% o'r Grant Refeniw Diogelwch ar y Ffyrdd.
- Dangosir y Cynlluniau Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd yn Ffigur RS1.
- Dangosir y dyraniadau a'r gwariant yn Nhabl RS1.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Ffigur RS1 – Cynlluniau Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd 2011/12



	Schemes
1	A496 Ceunant Sych, Blaenau Ffestiniog Speed Reduction Measures
2	A493 Friog Traffic Lights
3	A493 Garth Angharad Road Safety Barriers
4	Ysgol Dyffryn Ardudwy (footway and road safety improvements)
5	A495 Godor Farm Llansantffraid
6	Sheep House Bends
7	A489 Churchstoke
8	A4113 Knighton School
9	A488 Bleddfa
10	A438 Bronllys Traffic Island
11	B4518 Llanbrynmair Primary School
12	A4215 Defynnog to A470
13	College Row Ystradgynlais
14	A4081 Junction Improvement
15	A44 Improved Signage
16	C0199 Neath Road, Crynant Forest Bend
	Other schemes:
	Motorcycle Safety Signs
	Anti-skid Treatment
	Casualty Rate Signs
	Variable 20mph Speed Limits
	Vehicle Activated Signs
	Telemetry Site Monitoring

Tabl RS1 – Dyraniad a Gwariant Diogelwch Ffyrdd 2011/12

	Dyraniad gwreiddiol 2011/12	Gwariant terfynol 2011/12	% a wariwyd
Cyfalaf Diogelwch Ffyrdd	£235,500	£261,664	111%
Refeniw Diogelwch Ffyrdd	£293,500	£287,102	97.8%
Cyfanswm	**£529,000**	**£548,864**	**103.8%**

Prif Iwyddiannau

Yn 2011/12, derbyniodd TraCC ddyraniad Grant Refeniw Craidd o £150,000, ynghyd â grant ychwanegol o £40,000 i ariannu Cydgysylltydd y Cynllun Teithio Rhanbarthol drwy'r Grant Refeniw Canolfannau Teithio Cynaliadwy. Gwariodd TraCC 100% o'r Grant Refeniw Craidd a'r dyraniad ar gyfer Cydgysylltydd y Cynllun Teithio Rhanbarthol. Mae TraCC yn gwario 27% o'r Grant Refeniw Craidd ar Reoli Prosiectau a Rhaglenni. Mae hyn yn cyfateb i gostau Swyddog Prosiectau a Rhaglenni TraCC, sef £40,000 gan gynnwys argostau.

Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol TraCC Adroddiad Cynnydd Blynyddol 2011/12 CRYNODEB GWEITHREDOL

Defnyddir cyfran fwyaf y grant i gefnogi Tîm Craidd TraCC, sef dau aelod staff amser llawn.

Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol i fonitro'r perfformiad i gyflawni'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Fodd bynnag, nid yw'r dangosyddion ond yn ystyried rheolaeth ariannol, ac nid ydynt yn gyfle i ystyried y gwaith o gyflawni'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn gyfannol, er enghraifft, y buddion i gymunedau lleol o fuddsoddi mewn cynlluniau.

Mae TraCC wedi gwario 100% o'r arian a ddyrannwyd i'r rhanbarth yn 2011/12. Yn ychwanegol at hyn, mae wedi llwyddo i ddefnyddio £150,000 o arian ychwanegol a ddarparwyd iddo tua diwedd y flwyddyn ariannol, sef 106%. Cyflawnwyd hyn yn sgil gwaith diwyd Tîm Craidd TraCC i graffu ar y rhaglen gyfan, a'i rheoli, a gwaith rheoli ac adrodd effeithiol yr awdurdodau lleol o ran prosiectau unigol. Dyma berfformiad TraCC yn erbyn y DPA:

- **DPA 1 - Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn (% o'r gyllideb)**

Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol £2,830,000 (106% o'r gyllideb wreiddiol)

- **DPA 2 – Proffil gwariant o'i gymharu â'r gyllideb wreiddiol**

Grant Cyfalaf y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol

	Gwariant cronnus (£,000)			
	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4
Rhagolwg	0	730	1,515	2680
Gwirioneddol	0	270	1244	2852

- **DPA 3 – Gwariant cronnus erbyn diwedd Ch3**

Grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol £1244k

- **DPA 4 – Alldro o'i gymharu â'r amcan gwreiddiol – Prosiectau dros £50,000**

Cynllun	Gwariant (£,000)	
	Amcan o wariant 2011/12	Gwariant gwirioneddol 2011/12
Porth Trafnidiaeth Teithwyr Aberystwyth	400	409
Cam 2 Bwcabus (Gwasanaeth Cyswllt TrawsCymru)	260	246
Cyfnewidfa Machynlleth	50	16
Cyfnewidfeydd/Cysylltiadau Trafnidiaeth Gyhoeddus (Aberhonddu a Dolgellau)	165	130
A486 Post Bach i Synod Inn	234	536
Pont Briwet	1,100	311
Llwybr Tegid, y Bala (Cam 1)	150	43

- **DPA 5 – Dechrau'n hwyr – Prosiectau dros £50k**

  Ni ddechreuodd unrhyw gynllun yn hwyr.

- **DPA 6 – Gofynion adrodd**

  Dangosir canran yr adroddiadau hwyr o ran grant y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol isod.

Ebrill	Mai	Mehefin	Gorffennaf	Awst	Medi
amh.	**14%**	**0%**	**11%**	**3%**	**22%**
Hydref	**Tachwedd**	**Rhagfyr**	**Ionawr**	**Chewefror**	**Mawrth**
33%	**67%**	**56%**	**56%**	**56%**	**11%**

HOFFEM GLYWED GENNYCH…

Os hoffech ddod i wybod mwy am TraCC, ewch i'n gwefan yn www.tracc.gov.uk neu anfonwch e-bost atom yn **ymholiadau@tracc.gov.uk**. Fel arall, gallwch ein ffonio ar 01970 633431 neu ysgrifennu atom yn: Swyddfa TraCC, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth SY23 3UE.